**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwllgor 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N J Davies | M Durke | L S Gibbard |
| K M Griffiths | J A Hale | W G Lewis |
| I E Mann | S Pritchard | C Richards |
| B J Rowlands | G J Tanner | L J Tyler-Lloyd |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Francis | Rheolwr Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Sefydliadol |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busne a Swyddog Monitro |
| Alisha Lynch | Swyddog Dysgu a Datblygu Corfforaethol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S M Jones, K M Roberts a/ac L V Walton

---

## 8 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorwyr P M Black, N J Davies, M Durke, L S Gibbard, K M Griffiths, J A Hale, W G Lewis, I E Mann, S Pritchard, C Richards, B J Rowlands, G J Tanner ac L J Tyler Lloyd fudd personol yng nghofnod rhif 12 “Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2018-2019 – Ymgynghoriad” gan y cyfeirir at gyflog sylfaenol cynghorwyr.

## 9 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.

## 10 Cynghorydd hyfforddiant. (Cyflwyniad)

Cefnogwyd y Rheolwr Dysgu, Hyfforddi a Datblygu Sefydliadol, gan y Swyddog Dysgu a Datblygu Corfforaethol, a rhoddwyd trosolwg i'r pwyllgor o'r strwythur

presennol a newidiadau i ddysgu, hyfforddi a datblygu sefydliadol a chrynodeb o'r hyfforddiant e-ddysgu sydd ar gael.

Amlygodd y Cadeirydd y gofynion hyfforddi gwahanol ar gyfer cynghorwyr o'u cymharu â swyddogion a nodwyd y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr hyfforddiant a ddarperir.

Dywedodd y swyddogion y gallai'r cyrsiau hyfforddiant gael eu llunio'n benodol ar gyfer cynghorwyr.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Dosbarthu’r cyflwyniad i'r pwyllgor.

**11 Adolygiad o Raglen Sefydlu Cynghorwyr 2017.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn adolygu Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr 2017, a drefnwyd i hysbysu cynghorwyr newydd eu hethol a'r rhai sy'n dychwelyd o’u rolau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor. Atodwyd Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2017-2018 yn Atodiad A yr adroddiad.

Trefnwyd 53 o sesiynau hyfforddi, gan gynnwys sesiynau dilynol ar bob maes pwnc. Lle bo'n bosib, trefnwyd amser y sesiynau hyn er mwyn galluogi pobl i fod yn bresennol yn y bore neu'r prynhawn. Gofynnwyd i ddarparwyr hyfforddiant hefyd gyfyngu'r sesiynau i oddeutu 2 awr. Dosbarthwyd ceisiadau am gyfarfodydd hefyd ar gyfer yr holl sesiynau ac er bod y rhan fwyaf o'r aelodau wedi derbyn y gwahoddiadau hyn, roedd rhai wedi derbyn ond heb fynd i'r hyfforddiant. Arweiniodd hyn at bresenoldeb isel ar gyfer rhai o'r sesiynau, y gellid bod wedi'u canslo neu eu haildrefnu ar gyfer amser mwy cyfleus i'r cynghorwyr a'r swyddogion.

Fel rhan o'r rhaglen, cynhaliwyd digwyddiad Marchnad ar 11 Mai 2017 gyda 39 o gynghorwyr yn bresennol a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol. Yn y digwyddiad, rhoddwyd cyflwyniadau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol i'r cynghorwyr ac roeddent yn gallu edrych ar y stondinau yn Neuadd Siôr, a oedd yn cynnwys 21 o feysydd gwasanaeth gwahanol o'r Adrannau Lleoedd, Adnoddau a Phobl. Mae rhaglen digwyddiad y Farchnad yn Atodiad B yr adroddiad.

Darparwyd rhestr o sesiynau hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig a nodwyd y disgwylir i bob cynghorydd fynd i bob un o'r meysydd hyfforddi gorfodol yn ystod tymor eu swydd. Yn ogystal, roedd angen hyfforddiant arbenigol penodol ar gyfer bod yn aelod o bwyllgorau penodol.

Nodwyd hefyd y byddai sesiynau hyfforddiant ychwanegol yn cael eu darparu yn y flwyddyn newydd ac os na fydd cynghorwyr yn mynd i'r sesiynau hynny, byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn darparu rhestr o'r rhai nad ydynt yn mynychu i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol perthnasol er mwyn annog presenoldeb.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ddarparu adborth ar y Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr. Trafodwyd y materion canlynol:

- Darparu hyfforddiant e-ddysgu a fyddai'n diwallu anghenion hyfforddi cynghorwyr;
- Gwahaniaethu rhwng gofynion hyfforddi cynghorwyr a swyddogion, gan gydnabod gwybodaeth cynghorwyr;
- Defnyddio lleoliad arall i Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas;
- Cyfyngu hyfforddiant cynghorwyr i 90 munud er mwyn gwella presenoldeb;
- Darparu taflenni adborth ym mhob sesiwn hyfforddi;
- Prif Chwipiau'n cael gwybod am bresenoldeb mewn hyfforddiant yn rheolaidd;
- Hyfforddiant ynghylch rheolau dadlau, Cyfansoddiad y Cyngor, rheoli gwaith achos a diogelu data;
- Cynnal digwyddiad Marchnad arall
- Cyflwyno gwahanol opsiynau/ddulliau hyfforddi;
- Nodi sgiliau cynghorwyr;
- Cyfyngu ar yr hyfforddiant cychwynnol a roddir pan fydd cynghorwyr yn cael eu hethol am y tro cyntaf;
- Y rhaglen sefydlu'n rhy hir;
- Ailadrodd rhai pynciau hyfforddi.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth;
2) Y bydd y Swyddog Monitro’n dosbarthu nodyn briffio i'r holl gynghorwyr ynghylch rheolau dadlau a Chyfansoddiad y Cyngor;
3) Cyfyngu sesiynau hyfforddi i 90 munud;
4) Darparu ffurflenni adborth ar gyfer sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.

## 12 Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-2019 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Ymgynghoriad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018-2019, a oedd yn nodi'r penderfyniadau a oedd yn effeithio ar Ddinas a Sir Abertawe a'r ymatebion arfaethedig.

Byddai'r sylwadau'n cael eu defnyddio i lunio adroddiad i'r cyngor a rhoddir ymateb ffurfiol i'r IRPW erbyn y dyddiad cau sef 29 Tachwedd 2017. Bydd adroddiad terfynol yr IRPW yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2018.

Gofynnodd y pwyllgor fod yr ymateb yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith na ddylai ad-dalu costau gofal fod yn destun treth ac yswiriant gwladol.

**Penderfynwyd:**

1) Ychwanegu sylwadau at yr ymateb ynghylch trethiant yn cael ei ychwanegu at gostau gofal;
2) Argymell bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor i'w gymeradwyo.

**13 Adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn nodi adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr er mwyn symleiddio ei gynnwys a symud tuag at fersiwn ddigidol yn unig.

Wrth adolygu, dilëwyd elfennau ailadroddus yn y Llawlyfr, a symleiddiwyd ei gynnwys er mwyn ei wneud yn fwy hwylus i'w ddefnyddio gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig fel ei gilydd. Roedd hi hefyd yn fwriad troi'r ddogfen yn fersiwn ar-lein.

Dywedwyd bod Llawlyfr presennol y cynghorwyr wedi'i rannu'n bedair rhan. Roedd yr adroddiad wedi adolygu Adran A “Gwybodaeth Ariannol” ac Adran Ch "Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person". Byddai Adrannau B "Gwasanaethau Cefnogi" ac C "Protocolau" yn cael eu hadolygu'n hwyrach.

**Penderfynwyd:**

1) Bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor er mwyn ei gymeradwyo;
2) Cyflwyno rhannau ychwanegol o'r llawlyfr i'r pwyllgor ymhen amser.

**14 Cynllun Gwaith 2017-2018.**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod dyletswydd arno i gynnal "Arolwg Amser Cyfarfodydd y Cyngor" yr oedd yn bwriadu ei ddosbarthu'n hwyrach yn 2017. Ychwanegodd ei bod hi'n bwysig bod yr awdurdod yn amrywiol ac mor agored â phosib i anghenion y cynghorwyr hynny y mae ganddynt gyfrifoldebau gofalu ac ymrwymiadau gwaith.

Gofynnwyd i gynghorwyr ddarparu adborth ynghylch y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl. Byddai arolwg yn cael ei lunio i gynorthwyo gyda hyn.

Byddai adolygu Llawlyfr y Cynghorwyr (Adrannau B ac C) yn cael ei ychwanegu at y cynllun gwaith.

**Penderfynwyd** y byddai'r cynllun gwaith yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.30 pm

**Cadeirydd**